# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Llys Herbert**

**Llys Herbert**
**Ty-draw Road Llys-faen**
**Caerdydd**
**CF14 0AW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Llys Herbert

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Care UK Community Partnerships Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 75 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Chwefror 2024 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hynod fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt. Mae'r plant yn cael gofal a chymorth gan dîm o staff gofal ymrwymedig, caredig a chyfeillgar. Mae'r staff gofal wedi cwblhau amrywiaeth o bynciau hyfforddiant i ddiwallu anghenion y rhai sy'n byw yn y cartref. Mae'r gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael yn cael ei wella ymhellach gan y timau arlwyo, cadw tŷ a chynnal a chadw medrus a brwdfrydig. Mae'r ffordd y mae'r timau'n cydweithio yn un o gryfderau'r gwasanaeth gan eu bod yn cyfarfod ar y cyd i adolygu anghenion a chanlyniadau'r bobl. Mae'r cynlluniau personol a dogfennaeth gofal yn hysbysu'r staff yn llwyr sut mae person am gael ei ofal. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o adolygu eu gofal. Mae'r gwasanaeth yn eu hyrwyddo i fod mor annibynnol ag y gallant. Mae trefniadau llywodraethu da yn y cartref. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae'r tîm rheoli yn cwblhau gweithgareddau monitro ac archwilio cadarn. Mae llais y bobl sy'n byw yn y cartref yn bwysig iawn i bawb sy'n gweithio yno, gwrandewir ar y bobl ac maent yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff gofal yn cael eu goruchwylio'n amserol. Mae diwylliant a morâl y tîm o staff yn gadarnhaol ar y cyfan. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd rhagorol sy'n hybu eu canlyniadau gorau posibl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn gwybod ac yn deall pa ofal, cymorth a chyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn eu helpu i gyflawni canlyniadau llesiant da. Maent yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth cyn iddynt gael eu derbyn. Mae ymholiadau cychwynnol y bobl wedi'u trefnu a'u rheoli'n dda gan wasanaethau cwsmeriaid. Mae'r wybodaeth yn hygyrch, a chymerir amser i esbonio'r hyn y mae'r gwasanaeth yn gallu ei ddarparu. Mae'r gwasanaeth yn darparu canllaw cyfredol i ddefnyddwyr y gwasanaeth, llenyddiaeth am grwpiau a gweithgareddau a thaith o amgylch y cartref.  Golyga hyn y rhoddir digon o wybodaeth i'w helpu i wneud y penderfyniad cywir am eu gofal a'u cymorth cyn llofnodi cytundeb gwasanaeth. Dywedodd y bobl a'r cynrychiolwyr wrthym fod y wybodaeth yn glir.

Caiff amgylchiadau unigol y bobl eu hystyried. Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddiwallu anghenion diwylliannol a chrefyddol. Caiff diwylliant a threftadaeth Cymru eu cynrychioli’n gryf drwy décor y cartref ac mae gwybodaeth ar gael yn Gymraeg. Cymerodd rhai o'r bobl ran mewn gweithgaredd yn ddiweddar o'r enw Ryseitiau i'w Cofio, lle mae'r bobl yn pobi gyda'r staff arlwyo, yn paratoi bwydydd sydd o bwys i'w diwylliant neu i ddwyn atgofion arbennig i gof. Mae'r gwasanaeth yn parchu anghenion a dymuniadau'r bobl o amgylch credoau crefyddol. Cynhelir gwasanaethau crefyddol yn y cartref, ac mae'r bobl yn parhau i ymweld â mannau addoli eu hunain os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Mae pob aelod o'r staff ar draws y timau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn y cartref yn adnabod y bobl yn dda iawn, ac mae hyn yn effeithio ar eu llesiant yn gadarnhaol. Mae'r gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn garedig ac yn broffesiynol.  Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi'r ‘*Little things*’ sy'n gwneud gwahaniaeth iddynt o ddydd i ddydd. I rai, roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y staff arlwyo a'r staff gofal yn gweini te a byrbrydau a bod tîm y gegin yn mynd yr ail filltir wrth ddarparu ar gyfer dewisiadau penodol.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael iddynt. Mae systemau sefydledig ar waith ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, cwynion a materion diogelu. Mae gan y bobl lawer o hyder yn y tîm cyfan o staff, a byddai'r tîm rheoli yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae'r staff gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r bobl yn ddiogel, cynnal cofnodion cywir a chynnal eu sgiliau, gwybodaeth a'u cymwyseddau.

Mae datganiad o ddiben cyfredol. Mae'r Datganiad o Ddiben yn ofyniad rheoliadol sy'n disgrifio'r gwasanaeth yn gywir. Gall y bobl fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn gweithredu yn unol â'u Datganiad o Ddiben.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cyfrannu at benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth. Mae'r gwasanaeth yn eu cynnwys nhw a'u cynrychiolwyr wrth gwblhau asesiadau ac ysgrifennu cynlluniau personol. Mae'r cynlluniau personol yn llawn gwybodaeth ac yn dweud wrth y staff gofal am anghenion sylfaenol person. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar gefnogi pobl i fod yn actif ac mor annibynnol â phosibl. Maent yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o adolygu'r cynlluniau, sy'n cofnodi eu hadborth ar bob agwedd ar fyw yn y cartref. Mae gwybodaeth am fywyd person a'r hyn sy'n bwysig iddynt ar gael i'r staff gofal, mae'r rhan fwyaf o broffiliau'r bobl yn fanwl ond nid yw hyn yn wir i bawb.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir, ar yr adeg gywir. Maent yn cael parhad gofal gan staff gofal ymrwymedig a medurs. Caiff y bobl eu trin â charedigrwydd a pharch. Mae'r staff gofal yn cwblhau cofnodion dyddiol sy'n nodi bod y bobl yn cael cymorth yn unol â'u cynllun personol. Maent yn goruchwylio iechyd corfforol y bobl yn dda ac mae'r cofnodion yn dweud wrthym eu bod yn gweld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Mae nyrsys ardal a meddygon teulu yn ymweld â'r cartref yn wythnosol ac mae gwasanaethau eraill megis triniaeth traeth ar gael. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth sensitif i'r rhai y mae eu hiechyd yn dirywio ac yn gweithio'n dda gydag arbenigwyr gofal iechyd eraill i wneud i'r bobl deimlo'n gyfforddus.

Mae'r gwasanaeth yn rheoli meddyginiaeth yn briodol ac yn galluogi'r bobl i fod yn annibynnol drwy roi meddyginiaeth iddynt hwy eu hunain pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant i roi meddyginiaeth yn ddiogel i'r rhai sydd ei angen. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion sy'n ymwneud â rheoli meddyginiaeth yn gywir. Mae polisi meddyginiaeth yn hysbysu'r staff gofal yn llwyr a cheir goruchwyliaeth glinigol dda. Mae'r gwasanaeth yn rhagweithiol wrth wneud newidiadau i wella'r ffordd maent yn cefnogi'r bobl â meddyginiaeth yn barhaus.

Mae'r gwasanaethau arlwyo o safon uchel iawn ac mae'r bobl yn canmol ansawdd ac argaeledd y bwyd a'r dewis o fwyd yn gyson. Mae'r staff arlwyo yn brofiadol iawn wrth ddiwallu anghenion deietegol penodol y bobl, a darperir ar gyfer deietau sydd wedi'u haddasu. Gwelsom fod digonedd o diodydd a byrbrydau ar gael i'r bobl drwy'r dydd. Mae'r ardaloedd bwyta yn cael eu gosod i safonau bwyty. Nid yw'r rhyngweithio cadarnhaol rhwng y staff gofal a'r bobl ar amseroedd bwyd mor gyson ag y dylai fod, sy'n golygu nad yw'r bobl o bosibl yn cael y cyfathrebu cymdeithasol yr hoffent ei gael. Mae'r staff gofal yn monitro'r hyn y mae person yn ei fwyta a'i yfed am gyfnod byr ar ôl cael ei dderbyn ac yn cadw cofnodion o bwysau'r bobl sy'n arfer dda. Mae'r gwasanaeth yn archwilio'r wybodaeth ac yn monitro llesiant y bobl ac yn gwneud atgyfeiriadau addas pan fydd angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'r cartref wedi'i addurno'n hyfryd i safon arbennig iawn. Mae'r llenni a'r deunyddiau wedi cael ystyriaeth ofalus i ddiwallu anghenion y bobl, yn enwedig y rhai ag anghenion gofal dementia. Mae'r awyrgylch yn dawel ac yn hamddenol. Mae'r lefelau glendid a'r rheoli heintiau yn rhagorol. Mae'r bobl yn fodlon iawn ar ansawdd y gwaith cadw tŷ a'r gwaith cynnal a chadw.

Mae'r bobl yn gwerthfawrogi ardal y caffi yn arbennig, lle maent yn cyfarfod ag ymwelwyr, ac yn cymdeithasu â'i gilydd ar unrhyw adeg y dymunant. Mae ardal y caffi wedi'i lenwi ag amrywiaeth anhygoel o ddiodydd poeth ac oer a byrbrydau sydd wedi cael eu pobi'n ffres. Dywedodd y bobl wrthym fod yr ardal hon o'r cartref yn rhoi ymdeimlad o normalrwydd iddynt, am ei fod yn teimlo fel petaent yn mynd i siop goffi gyda ffrindiau. Mae'r bobl yn cael ymwelwyr pan fyddant yn dewis. Mae ymwelwyr sy'n dod i'r cartref yn cwblhau'r llyfr ymwelwyr ond nid yw'r gwiriadau ar hunaniaeth mor gryf â'r hyn y dylai fod. Mae'r darparwr yn gwneud newidiadau ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr ymwelwyr yn cael eu derbyn yn ddiogel.

Mae cyfarpar ar gael i alluogi'r bobl i gwblhau tasgau gofal dyddiol, ac i symud o gwmpas y cartref yn rhydd ac yn ddiogel. Mae pwyslais cryf ar bobl yn cadw'n actif ac mae'r darparwr yn cefnogi cymryd risgiau cadarnhaol. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn grwpiau megis *Move it or Lose it* ac Atal Cwympiadau. Mae digon o le storio ar gyfer cyfarpar codi a chario, sy'n golygu bod yr holl gyfarpar o'r golwg, gan ddarparu lleoliad mwy cartrefol. Mae rhai o'r ystafelloedd wedi'u cloi er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r ystafelloedd wedi'u personoli, ac mae'r cyfleusterau en-suite fel newydd. Mae digon o gyfleusterau yn yr ystafelloedd ymolchi cymunedol.

Mae'r cofnodion diogelwch tân yn tystio bod yr holl staff gofal wedi cael o leiaf un cyfle i fod yn rhan o'r ymarferion, mae'r ffeil cynnal diogelwch tân mewn trefn dda. Mae'r cofnodion a'r tystysgrifau sy'n ymwneud â chynnal a chadw'r cartref yn gyflawn ac mae'r amgylchedd yn cael ei oruchwylio'n rhagorol.

Mae gan y cartref gyfleusterau rhagorol i'r bobl, megis bar, sinema a salon. Mae sawl ystafell ar draws y cymunedau ar gyfer gweithgareddau a hobïau. Mae digon o gyfarpar yn yr ystafelloedd, a rhoddir gofal ac ystyriaeth ychwanegol i wrthrychau a gweithgareddau addas a diddorol i bobl â dementia. Mae ardaloedd awyr agored ar gael i'r bobl gyda digonedd o ddodrefn ac ardaloedd gwyrdd. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys y bobl wrth gynllunio'r ardaloedd gwyrdd â'u mewnbwn a'u syniadau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain a'i reoli'n effeithiol ac mae'r strwythur sefydliadol yn glir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am ansawdd y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael ac mae'n goruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei reoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau ymweliadau rheolaidd i'r cartref er mwyn siarad â'r staff ar draws y timau ac ymgysylltu â'r bobl i gael eu safbwyntiau a'u barn ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Caiff gweithgareddau sicrhau ansawdd eu gwneud yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn creu adolygiad o ansawdd y gofal, sy'n ofyniad rheoliadol. Mae'r adolygiad o ansawdd y gofal yn dweud wrth y darparwr yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wneud yn well yn seiliedig ar adborth, arsylwadau ac archwiliadau o'r cofnodion.  Mae gweithdrefnau archwilio cryf ar waith drwy gydol y gwasanaeth, a gwelsom fod gwelliannau'n cael eu gwneud ar ôl digwyddiadau neu ddamweiniau. Mae'r gweithgareddau sicrhau ansawdd cyfredol yn dangos bod y gwasanaeth yn gweithio'n dda.

Mae cael safbwyntiau a barn y bobl yn un o gryfderau'r gwasanaeth ac mae gan y bobl lais cryf. Mae'r gwasanaeth yn annog y bobl i ddarparu adborth ac i enwebu unrhyw aelod o'r staff er mwyn cydnabod ei waith. Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn rheolaidd a chânt eu gwerthfawrogi'n fawr gan y tîm rheoli.

Mae'r gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau recriwtio diogel ac mae cofnodion y staff yn cael eu goruchwylio'n effeithiol. Mae'r broses sefydlu a'r cyfnod prawf ar gyfer staff gofal newydd yn gadarn. Mae tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn eu lle ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â chymwysterau'r staff gofal a chofrestriad Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu yn gyflawn. Mae'r staff gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd. Mae'r amrywiaeth o hyfforddiant y mae'r staff gofal wedi ei gwblhau yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r cofnodion sy'n ymwneud â sgiliau, gwybodaeth a chymhwysedd y staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth yn dda.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau, ond nid oedd pob un yn teimlo'r un fath. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwybodol ac yn cymryd camau i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn deall pryd i godi pryderon yn hyderus a dienw.

Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal ac mae'r gwasanaeth yn trefnu cyfarfodydd bob mis. Mae'r gwasanaeth yn ymdrechu i ddathlu a chydnabod gwaith da ar draws ei dîm. Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym fod eu llesiant yn bwysig i'r tîm rheoli, ac mae'r gwaith tîm yn gryf sy'n effeithio ar ganlyniadau'r bobl yn gadarnhaol. Ond byddai rhai o'r staff gofal yn hoffi gwell cyfathrebu ar rai materion sy'n effeithio ar eu llesiant. Nodwyd gennym fod y lefelau staffio yn cael eu rheoli'n gywir, ond roedd yr adborth yn dweud wrthym fod y staff gofal yn wynebu rhywbeth gwahanol weithiau. Mae'r darparwr yn recriwtio ar gyfer bylchau sy'n hysbys yn y tîm o staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/04/2024